**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 25. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 5

## TRAFODIADAU EIDDO PRESWYL CYFRADDAU UWCH

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Atod. 5 applied (ynghyd â modifications) (1.4.2018) by Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/126), rhlau. 1(2), **12**

## **RHAN 5**

## DARPARIAETHAU ATODOL

### *Priodau a phartneriaid sifil yn prynu ar eu pen eu hunain*

25 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â thrafodiad trethadwy—

(a) os yw'r prynwr (neu un ohonynt) yn briod neu mewn partneriaeth sifil ar y dyddiad y mae'r trafodiad yn cael effaith,

(b) os yw'r prynwr a phriod neu bartner sifil y prynwr yn cyd-fyw ar y dyddiad hwnnw, ac

(c) os nad yw priod neu bartner sifil y prynwr yn brynwr yn y trafodiad.

(2) Mae'r trafodiad i'w drin fel trafodiad eiddo preswyl cyfraddau uwch pe bai wedi bod yn drafodiad eiddo preswyl cyfraddau uwch pe bai priod neu bartner sifil y prynwr wedi bod yn brynwr.

(3) Caiff unigolion sy'n briod â'i gilydd, neu'n bartneriaid sifil i'w gilydd, eu trin at ddibenion yr Atodlen hon fel pe baent yn cyd-fyw oni bai—

(a) eu bod wedi gwahanu o dan orchymyn llys sydd ag awdurdodaeth gymwys,

(b) eu bod wedi gwahanu drwy weithred wahanu, neu

(c) eu bod wedi gwahanu mewn gwirionedd mewn amgylchiadau lle mae'r gwahanu yn debygol o fod yn barhaol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 5 para. 25 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I2** Atod. 5 para. 25 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/34, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 25.